ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG51686

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cod Trefniadaeth Ysgolion

Ymgynghoriad ar y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Medi 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'r Cod drafft yr ymgynghorwyd yn ei gylch yn adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi sydd wedi digwydd ers i fersiwn 2018 o'r Cod ddod i rym, neu'n atgyfnerthu gofynion sy'n ymwneud â deddfwriaeth a oedd ar waith bryd hynny.

Camau i'w cymryd

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon.

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras a Braille o'r ddogfen hon ar gael ar gais ynghyd â chopïau mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Y Gangen Llywodraethiant, Trefniadaeth a Derbyniadau i Ysgolion
Is-adran Seilwaith Addysg, Llywodraethu a Chyllid
Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: SGOA@llyw.cymru

WG_Education

Facebook/EducationWales

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig. Maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y ddogfen ymgynghori: hyperlink

Cyflwyniad

Cyhoeddir y Cod Trefniadaeth Ysgolion (“y Cod”) o dan adrannau 38 a 39 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (“Deddf 2013”), sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'n bosibl y byddant yn diwygio'r Cod o bryd i'w gilydd yn dilyn y weithdrefn a nodir yn adran 39 o Ddeddf 2013.

Cyhoeddwyd yr ail argraffiad o'r Cod yn 2018. Mae'r Cod wedi cael ei adolygu ar ôl 5 mlynedd o weithredu, ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud. Mae'r mwyafrif ohonynt yn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth ers i ail fersiwn y Cod ddod i rym, neu maent yn rhoi eglurder ar ofynion sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth a oedd ar waith ar y pryd. Nodir y newidiadau hyn isod.

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (“Rheoliadau 2015”) yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad cyrff penodol (Gweinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol). Mae'r safonau'n cynnwys safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi, safonau gweithredu, safonau hybu, a safonau cadw cofnodion.

Mae Atodlen 2 o Reoliadau 2015 yn nodi safonau llunio polisïau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i effeithiau penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae safonau llunio polisïau 88-97 yn berthnasol i gynigion trefniadaeth ysgolion am fod yn **rhaid** i'r cyrff a nodwyd gydymffurfio â hwy wrth wneud pob penderfyniad polisi, gan gynnwys cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion. Mewn perthynas â chynigion statudol, nid yw'r ddyletswydd wedi'i chyfyngu i gynigion mewn perthynas ag ysgolion Cymraeg, mae'n gymwys i gynigion sy'n ymwneud â phob ysgol a gynhelir, ni waeth beth fo'i chategori iaith.

O dan safonau 91, 92 a 93,**rhaid** i ddogfennau ymgynghori ystyried effaith penderfyniad polisi ar y Gymraeg a hefyd ofyn am farn ar effaith y penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Mae'r rhain yn ofynion ar wahân, sy'n golygu bod rhaid cael asesiad effaith ac yna mae'n rhaid gofyn cwestiynau am yr asesiad hwnnw.

Mae'r Cod wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu Rheoliadau 2015, gan gynnwys y safonau llunio polisïau. Wrth wneud hynny, mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg gael ei gynnal ar gyfer pob cynnig statudol. Mae'n **rhaid** cynnwys hwn fel rhan o'r ddogfen ymgynghori neu ei gyhoeddi ochr yn ochr â hi.

Cymraeg 2050

Mae'r Cod wedi ei ddiwygio i fod yn gyson â Cymraeg 2050, sef strategaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, a'r targedau a bennir o fewn Cynllun Strategol 10 mlynedd Cymraeg mewn Addysg pob awdurdod lleol sy'n cefnogi'r uchelgais honno. O ystyried pwysigrwydd y sector addysg yn ei gyfanrwydd o ran creu siaradwyr Cymraeg newydd, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r broses o gynllunio a datblygu cynigion trefniadaeth ysgolion adlewyrchu ein huchelgeisiau yn Cymraeg 2050 a chefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (‘Deddf 2018’) yn sefydlu'r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) plant a phobl ifanc (y system ADY). Mae'n disodli'r system ar gyfer diwallu anghenion addysgol arbennig (AAA) plant mewn ysgolion ac anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) mewn addysg bellach.

Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Mae'r Cod wedi cael ei ddiwygio i fod yn gyson â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021”), sy'n darparu ar gyfer cyflwyno a datblygu'r Cwricwlwm i Gymru i ddysgwyr 3 i 16 oed yng Nghymru.

Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

Sefydlodd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf TER") y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (a adwaenir fel "Medr"). Medr yw’r corff rheoleiddio sydd â chyfrifoldeb am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru, sy’n cwmpasu addysg ôl-16, gan gynnwys chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Mae ganddo swyddogaeth i sicrhau y darperir cyfleusterau priodol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i ddysgwyr ôl-orfodol 16-19 oed ac i'w cyllido.

Mae pwerau Gweinidogion Cymru, o dan adrannau 71 i 76 o Ddeddf 2013, i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth, wedi cael eu dileu. Mae Pennod 3A newydd wedi cael ei mewnosod i Ran 3 o Ddeddf 2013 er mwyn galluogi Medr i weithredu mewn ffordd fwy strategol, gan gynnig safbwynt ehangach ar ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion a sicrhau y gall gefnogi dewis a chynnydd i ddysgwyr.

Mae awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion sefydledig a gwirfoddol yn cadw eu swyddogaethau cyfredol mewn perthynas â chyflwyno cynigion ynghylch trefniadaeth chweched dosbarth ysgolion. Nid yw swyddogaetha Medr yn arwain at golli unrhyw ddarpariaethau gwarchodol presennol mewn perthynas â chyhoeddi cynigion, ymgynghori arnynt a'r gallu i'w gwrthwynebu ac mae darpariaethau pwysig eraill yn Neddf 2013 yn dal i fod ar waith.

Mae'r Cod wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i Ddeddf 2013 gan y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion.

Crynodeb o’r ymatebion

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 8 Tachwedd 2024 a 14 Chwefror 2025.

Cawsom gyfanswm o 32 o ymatebion, â'r mwyafrif ohonynt yn gofyn am aros yn ddienw. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr, heblaw am y rhai a oedd am aros yn ddienw, yn Atodiad A.

Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau yn gofyn am ateb 'cytuno', 'anghytuno', neu 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno', ynghyd ag unrhyw sylwadau ategol. Ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn. Fodd bynnag, ystyriwyd yr holl ymatebion a atebodd o leiaf un cwestiwn neu a roddodd sylwadau ar y cynigion. Mae'r canrannau a ddangosir ym mhob un o'r tablau isod wedi'u seilio ar y nifer a atebodd y cwestiwn penodol hwnnw. Nid yw'r crynodeb hwn yn gofnod cynhwysfawr o'r holl sylwadau a wnaed, ac nid yw absenoldeb mater penodol yn nodi ei fod wedi'i anwybyddu na'i fod yn llai pwysig.

Dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Yn y crynodeb hwn, rydym wedi grwpio dadansoddiadau'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn yr un modd ag yr ymddangosodd y cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori. Darperir ymatebion Llywodraeth Cymru i'r sylwadau a wnaed lle bo'n briodol.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1

A yw'r Cod drafft yn esbonio'n glir y ddeddfwriaeth berthnasol sydd wedi dod i rym ers cyhoeddi Cod 2018 a'r effaith y mae'r ddeddfwriaeth hon wedi'i chael ar y gofynion a'r canllawiau yn y Cod? (Os na, amlinellwch pa wybodaeth ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol.)

Cytuno	78%	Anghytuno	3%	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	19%

Sylwadau ategol

Yn gyffredinol, canfu ymatebwyr fod y Cod drafft yn esbonio'r ddeddfwriaeth a oedd wedi dod i rym.

Gofynnwyd am eglurhad pellach mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg a hefyd mewn perthynas â rôl Medr.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Gwneir rhai diwygiadau bach i'r adrannau sy'n ymwneud â Medr a safonau'r Gymraeg i egluro lle bo nodd.

Cwestiwn 2

A ydych yn cytuno y dylid cyhoeddi dogfennau allweddol fel y ddogfen ymgynghori, adroddiad ymgynghori, hysbysiad statudol, adroddiad gwrthwynebu a hysbysiad penderfynu ar wefan yr awdurdod lleol yn ogystal â gwefan y cynigydd (os oes ganddynt un) i sicrhau'r sylw mwyaf?

Cytuno	100%	Anghytuno		Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	

Sylwadau ategol

Cytunodd yr ymatebwyr y dylid cyhoeddi dogfennau allweddol. Byddai gwneud hynny yn helpu i rannu gwybodaeth â'r holl bartion.

Cwestiwn 3

A ydych yn cytuno y dylid ychwanegu arolygiadau ardal at y rhestr o dystiolaeth y dylai cynigwyr ei hystyried wrth asesu effaith cynigion ar ansawdd a safonau mewn addysg?

Cytuno	65%	Anghytuno	8%	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	27%

Sylwadau ategol

Er bod rhai o'r ymatebwyr yn dweud y dylai'r rhain fod ar gael gan eu bod yn rhoi darlun llawn, gofynnodd sawl un beth oedd "arolygiad ardal". Dywedodd rhai bod Estyn wedi cynnal arolygiadau o'r fath o'r blaen ond nid oedd hynny'n wir mwyach.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r adran hon wedi'i diwygio i nodi 'arolygiadau ardal, lle bo hynny ar gael' i gydnabod nad oes gan Estyn adnoddau i gynnal arolygiadau ardal ar hyn o bryd. Serch hynny, mae'r Ddeddf TER yn galluogi archwiliadau ardal i ddigwydd, felly efallai y gallent wneud hynny yn y dyfodol.

Cwestiwn 4

A ydych yn cytuno, wrth gynnig dod â darpariaeth chweched dosbarth i ben mewn ysgol, y dylai fod yn ofynnol i gynigwyr ystyried a oes digon o gapasiti gan y ddarpariaeth amgen a'i bod o ansawdd cyfatebol o leiaf, fel ag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd wrth ystyried cau ysgolion?

Cytuno	92%	Anghytuno	4%	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	4%

Sylwadau ategol

Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr fod hyn yn ofyniad wrth gyflwyno cynigion chweched dosbarth. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd ei bod yn anodd barnu pan mai adroddiadau Estyn yw'r unig wybodaeth sydd ar gael a bod y rheini mewn llawer o achosion yn 5 oed neu fwy.

Cwestiwn 5

A ydych yn cytuno y dylai cynigwyr roi sylw i Ganllawiau Achos Busnes Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a safonau gofodol Llywodraeth Cymru wrth ystyried a fydd gan ddarpariaeth ysgol amgen ddigon o gapasiti ac a fydd yn darparu adeiladau ac ystafelloedd o ansawdd cyfatebol o leiaf?

Cytuno	**81%**	**Anghytuno**	**4%**	**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**	**15%**

Sylwadau ategol

Mae'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r cynigwyr roi sylw i ganllawiau achos busnes y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a safonau gofodol Llywodraeth Cymru. Nodwyd bod fframweithiau o'r fath yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn glir, gyda ffocws cyson ar ansawdd, cynaliadwyedd ac ymarferoldeb. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y gall hyn fod yn anodd pan fo adeiladau hŷn dan sylw.

Cwestiwn 6

A ydych yn cytuno, wrth ystyried ffactorau ychwanegol i'w dwyn i ystyriaeth wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion ar gyfer ad-drefnu DAA/DDdY, y dylai cynigwyr ystyried sut y bydd y cynigion yn helpu'r ysgol i sicrhau DDY i ddisgyblion ag AAA/ADY?

Cytuno	**84%**	**Anghytuno**		**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**	**16%**

Sylwadau ategol

Cytunodd yr ymatebwyr y dylai cynigwyr ystyried sut y bydd y cynigion yn helpu'r ysgol i sicrhau DDY i ddisgyblion ag AAA neu ADY.

Cwestiwn 7

A ydych yn cytuno y dylid cynnwys map yn y ddogfen ymgynghori ochr yn ochr â'r wybodaeth sy'n ymwneud â lleoliad yr ysgol, lle mae cynigion yn ymwneud â sefydlu ysgol newydd?

Cytuno	77%	Anghytuno		Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	23%

Sylwadau ategol

Cytunodd y mwyafrif y dylid cynnwys map er mwyn tryloywder. Awgrymwyd y byddai hyn yn caniatáu i ymgyngoreion weld yr union leoliad, yn enwedig os nad ydynt yn gyfarwydd ag ardal. Dywedodd rhai hefyd fod yn rhaid i unrhyw fap a ddarperir fod yn hygyrch i bob darllenydd a gall hyn fod yn broblem mewn rhai achosion.

Cwestiwn 8

A ydych yn cytuno y dylid cynnwys manylion unrhyw drefniadau trosiannol yn y ddogfen ymgynghori, lle mae cynigion yn ymwneud â chau ysgol?

Cytuno	89%	Anghytuno		Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	11%

Sylwadau ategol

Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr y dylid cynnwys trefniadau trosiannol. Fodd bynnag, awgrymodd rhai y byddai eglurder ynghylch yr hyn y dylai'r rheini ei gynnwys yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ddigonol a chyson yn cael ei chynnwys. Dywedodd un ymatebydd y gallai fod yn ddefnyddiol i sicrhau y bydd yn addas i'r diben yn y dyfodol drwy gyfeirio at y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr statudol a fydd yn cael ei ddatblygu gan Medr.

Cwestiwn 9

A ydych yn cytuno y dylid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori, lle mae cynnig yn ymwneud ag ychwanegu neu gael gwared ar ddarpariaeth chweched dosbarth:

- enw a lleoliad yr ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig y gall dysgwyr eu mynychu (gan gynnwys map);

Cytuno	93%	Anghytuno		Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	7%

- cymhariaeth o ansawdd a safon yr addysg a ddarperir yn yr ysgol y byddai'r dysgwyr yn trosglwyddo ohonynt a'r ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig, ac amlinelliad o unrhyw gamau y bydd angen eu cymryd i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw ddiffygion;

Cytuno	85%	Anghytuno		Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	15%

- y trefniadau derbyn yn yr ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig;

Cytuno	89%	Anghytuno	4%	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	7%

- yr effaith debygol ar staff yr ysgolion a enwyd yn y cynigion;

Cytuno	81%	Anghytuno	4%	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	15%

- yr effaith ar deithiau dysgwyr, staff ac ymwelwyr i'r ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen ac ar gostau cludiant i'r ysgol;

Cytuno	81%	Anghytuno	11%	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	7%

- gwybodaeth am lwybrau cerdded, olwyno a beicio sydd ar gael a thrafnidiaeth gyhoeddus i'r ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen;

Cytuno	81%	Anghytuno	4%	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	15%

- cyfrwng iaith yr ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig;

Cytuno	96%	Anghytuno		Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	4%

- unrhyw drefniadau pontio.

Cytuno	78%	Anghytuno	4%	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	15%

Sylwadau ategol

Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr y dylid darparu'r wybodaeth a restrir fel darnau allweddol o wybodaeth pan fydd cynigion yn ymwneud â darpariaeth chweched

dosbarth. Tynnodd rhai sylw at bwysigrwydd darparu cymaint o wybodaeth â phosibl i ymgyngoreion ffurfio barn.

Cododd un ymatebydd rywfaint o bryder nad oes rhaid i Medr gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn gwneud cynnig i ddod â darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgol gymunedol i ben ac y dylid diwygio'r Cod i gyfarwyddo Medr i gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn bwrw ymlaen â chynnig.

Gofynnwyd am eglurder o ran y diffiniad o ansawdd a safon addysg h.y. a oedd hyn yn cyfeirio at arolygiad diweddaraf Estyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae rôl Medr wedi'i nodi yn Neddf TER ac mae'r Cod wedi'i ddiweddaru i ystyried y pwerau a'r gofynion deddfwriaethol newydd hynny. Dylai cynigwyr ddefnyddio gwybodaeth o arolygiad diweddaraf Estyn wrth ystyried ansawdd a safon addysg.

Cwestiwn 10

A ydych yn cytuno â'r rhestr estynedig o wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg, sy'n ofynnol ar gyfer pob cynnig statudol? (Os nad ydych, nodwch pa agweddau ar yr wybodaeth rydych yn anghytuno â nhw, neu os credwch y dylai fod unrhyw ofynion ychwanegol.)

Cytuno	**68%**	**Anghytuno**	**4%**	**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**	**28%**

Sylwadau ategol

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn bod yn rhaid cynnwys y rhestr estynedig o wybodaeth yn yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg, gyda rhai yn awgrymu y dylai'r rhestr estynedig helpu i sicrhau gwerthusiad trylwyr o sut mae cynigion yn effeithio ar y Gymraeg.

Gofynnodd rhai am gymorth parhaus ac arweiniad ar asesiadau o'r fath gan fod hyn wedi bod yn fuddiol yn y gorffennol.

Awgrymodd ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r rhestr estynedig, y gallai mewn gwirionedd gynyddu'n sylweddol y baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chynigion ac efallai y bydd cynigwyr, ac eithrio'r awdurdod lleol, yn cael trafferth cydymffurfio â'r gofynion estynedig.

Awgrymodd cwpl o'r ymatebwyr y byddai templed ar gyfer Asesiadau Effaith ar y Gymraeg yn ddefnyddiol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Er ein bod yn cydnabod y gallai cael templed ar gyfer asesiadau effaith fod yn ddefnyddiol mewn rhai achosion, mae'n bwysicach bod cynigwyr yn asesu'r effeithiau yn drylwyr yn eu cyd-destun lleol eu hunain. Am y rheswm hwn, mae'r rhestr orfodol yn gwneud y disgwyliad yn glir heb gyfyngu ar yr asesiad.

Cwestiwn 11

A ydych yn cytuno y dylid ychwanegu'r canlynol at y rhestr o unigolion a sefydliadau y mae'n rhaid rhoi gwybod iddynt fod y ddogfen ymgynghori, adroddiad ymgynghori, adroddiad gwrthwynebu, hysbysiad statudol a hysbysiad penderfynu ar gael a'u bod yn gallu cael copi papur ar gais?

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Ar gyfer cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth meithrin, gofal plant a gwaith chwarae			
Gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd yr awdurdod lleol	100%		
Y Mudiad Meithrin	91%	4%	4%
NDNA Cymru	90%	5%	5%
Clybiau Plant Cymru	84%	4%	12%
Blynyddoedd Cynnar Cymru	92%	4%	4%
Pacey Cymru	88%	8%	4%
Chwarae Cymru	88%	4%	8%
Ar gyfer cynigion sy'n effeithio ar chweched dosbarth ysgolion			
Y Comisiwn	92%	4%	4%
Ar gyfer cynigion sy'n effeithio ar y Gymraeg			
Mentrau Iaith Cymru	91%	4%	4%

Os ydych yn anghytuno ag unrhyw un o'r ymgyngoreion uchod, esboniwch pam, ac ychwanegwch unrhyw rai eraill y credwch y dylid eu cynnwys.

Sylwadau ategol

Dywedodd yr ymatebwyr y dylai awdurdodau lleol sicrhau mewnbwn a chyfraniad gwrthrychol Uned Adran Addysg neu swyddog iaith a Swyddog Iaith corfforaethol i sicrhau y rhoddir ystyriaeth dryloyw a chyflawn i unrhyw gynlluniau ar gyfer unrhyw drefniadaeth newydd i ysgolion, p'un a'u bod yn Gymraeg, Saesneg neu ddwyieithog.

Gofynnodd ymatebwyr i'r canlynol gael eu hychwanegu fel ymgyngoreion: Cymdeithas y Llywodraethwyr, RHAG, Gweithlu, Undebau'r Gweithlu, sefydliadau addysg bellach lleol, Colegau Cymru a Medr.

Awgrymodd rhai bod angen eglurder am rôl Medr fel cynigydd ac fel ymgynghorai.

Nid oes dim i atal cynigwyr rhag rhannu eu dogfennau ymgynghori gydag amrywiaeth ehangach o randdeiliaid a dylent ystyried hyn fesul achos.

Cwestiwn 12

A yw adran 10 o'r Cod drafft yn glir ynghylch y gofynion yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil mewn perthynas ag addysg chweched dosbarth sy'n deillio o Ddeddf 2022?

Cytuno	**100%**	**Anghytuno**		**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**	

Sylwadau ategol

Er bod yr holl ymatebwyr yn cytuno bod yr wybodaeth yn glir, nododd rhai bod cyfeiriad at y gofynion ynghylch swyddogaethau'r Comisiwn o fewn y cwestiwn ymgynghori wedi'i wneud i Adran 10 o'r Cod drafft a dylai fod wedi cyfeirio at Adran 9. Nododd rhai ymatebwyr fod cynigion sy'n effeithio ar ÔI-16 yn gymhleth ac maent wedi awgrymu y byddai sesiwn gyda chynrychiolydd Medr drwy grŵp Darpariaeth Lleoedd Ysgol Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru (ADEW POSP) yn helpu i ddeall rôl a phwerau'r Medr. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a fydd y newidiadau a osodwyd gan Ddeddf Trydyddol ac Addysg ac Ymchwil (Cymru) 2022 mewn perthynas ag adran 63 o Ddeddf 2013 drwy gyflwyno adrannau newydd 63A, 63B, a 63C a fydd yn cael eu gweithredu pan ddaw'r Cod diwygiedig i rym. Cafodd sawl pryder ei grybwyll ynglŷn â'r newidiadau hyn, gan gynnwys y diffyg caniatâd sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru cyn i'r Comisiwn gyflwyno cynnig i ddod â darpariaeth chweched dosbarth i ben. Awgrymir gwelliant i'r Cod er mwyn cynnwys cyfarwyddyd i'r Comisiwn gael caniatâd o'r fath cyn bwrw ymlaen â chynnig. Mae paragraff 9.3 yn nodi bod rhaid i'r Comisiwn ystyried y ffactorau a gynhwysir ym mharagraff 1.45 o'r Cod sy'n berthnasol i gynigion sy'n effeithio ar chweched dosbarth. Mae un ar ddeg o bwyntiau bwled wedi'u cynnwys yn y paragraff hwn, ac mae'r olaf ohonynt yn nodi: "sut mae cynigion yn cyd-fynd â'r ddyletswydd statudol ar y Comisiwn i sicrhau ac ariannu'r cyfleusterau priodol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i ddysgwyr ôl-16." Gan fod y Comisiwn yn gyfrifol am ariannu, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol yng Nghymru, mynegwyd pryder ynghylch y pwynt penodol hwn gan y gallai fod gwrthdaro buddiannau pe byddai'n well gan y Comisiwn, ar sail penderfyniad cyllido, weld chweched dosbarth ysgol yn cau a'r ddarpariaeth yn cael ei symud i ddarparwr Addysg Bellach (AB). Tynnodd rhai sylw at bwysigrwydd cymysgedd o ddarpariaeth yn y sector – gan sicrhau bod

chweched dosbarth ysgolion a'r sector AB yn gallu darparu addysg yn agos i'w cartrefi i bobl ifanc ledled Cymru. Nododd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd y Comisiwn yn parhau i fod yn gwbl wrthrychol wrth wneud penderfyniadau ac wrth roi cyfarwyddyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae rôl Medr wedi'i nodi yn Neddf TER ac mae'r Cod wedi'i ddiweddaru i ystyried y pwerau a'r gofynion deddfwriaethol newydd hynny. Daeth cychwyn pwerau Medr mewn perthynas â threfniadaeth chweched dosbarth ysgolion i rym ym mis Ebrill 2025. Mae rhai diwygiadau wedi'u gwneud i'r adrannau perthnasol o'r Cod i egluro ymhellach rôl Medr yn nhrefniadaeth chweched ddosbarth ysgolion.

Bydd swyddogion o Medr yn cael eu gwahodd i gyfarfod grŵp ADEW POSP yn y dyfodol.

Cwestiwn 13

A yw adran 11 o'r Cod drafft yn glir mewn perthynas â hysbysiad corff llywodraethu i derfynu ysgol sefydledig neu wirfoddol?

Cytuno	**78%**	**Anghytuno**		**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**	**22%**

Sylwadau ategol

Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr fod y Cod drafft yn glir yn hyn o beth. Mynegwyd pryder yn dilyn y diwygiad i'r Cod sydd bellach yn esbonio "nid oes gofyniad i ymgynghori ar gynigion i gau ysgol sy'n ysgol fach", gyda chyfeiriadau at ysgolion gwledig bach a gweithdrefnau ysgolion gwledig bach. Esboniodd un ymatebydd y dylai'r rheolau hyn fod yn berthnasol i bob ysgol a dywedodd sut y dylid ymgynghori ar unrhyw gau posibl. Awgrymodd yr ymatebwyr y byddai dolen at unrhyw ddeddfwriaeth/canllawiau perthnasol ynghylch rôl yr awdurdod lleol yn y gweithdrefnau hyn gyda'r Corff Llywodraethu yn fuddiol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r driniaeth o "ysgolion bach" mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion wedi'i nodi yn Neddf 2013 ac nid yw wedi newid ers argraffiad diwethaf y Cod.

Cwestiwn 14

Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y Cod drafft ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gennym mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A ydych yn credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau positif?
Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

Sylwadau ategol

Nododd rhai ymatebwyr fod y Cod drafft yn fwy cynhwysfawr yn y maes hwn ac yn gosod mwy o ofynion ar awdurdodau lleol i roi sylw dyledus i ganllawiau / deddfwriaeth genedlaethol. Fodd bynnag, awgrymodd un ymatebydd y byddai angen ystyried diwygiad arall gan fod y Bil Cymraeg ac Addysg yn cael ei fabwysiadu'n rhan o fframwaith deddfwriaethol Cymru.

Nododd sawl ymatebydd y byddai'r effeithiau yn gadarnhaol ar y cyfan. Cydnabuwyd bod y diwygiadau a wnaed i'r asesiad effaith ar y Gymraeg yn llawer ehangach ac y byddant yn helpu i nodi meysydd i gryfhau'r Gymraeg mewn perthynas ag unrhyw gynigion a wneir.

Fodd bynnag, dywedodd un arall nad oes unrhyw beth i atal cynigydd rhag cynnal astudiaeth effaith arwynebol sy'n anwybyddu rhanddeiliaid, na rhag anwybyddu'r holl effeithiau andwyol hysbys.

Nododd un, os cyflwynir cynnig gan gorff nad yw'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, fel corff llywodraethu, eu bod yn rhagweld y bydd angen cymorth ychwanegol ac arbenigol ar y corff i gynnal asesiad effaith ystyrlon ar y Gymraeg. Awgrymwyd hefyd y dylai disgwyliadau'r Cod mewn perthynas â chynnal asesiad effaith cymunedol gydnabod y Gymraeg mewn rhyw ffordd.

Dywedodd llawer o ymatebwyr y dylid edrych ar bob cyfle yn unigol ond, yn ysbryd Cymraeg 2050 a'r targedau perthnasol, dylid ffafrio datblygu ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog ar draul ysgolion cyfrwng Saesneg. Honnwyd, oni wnaed hyn, na fyddai Llywodraeth Cymru yn dod yn agos at gyrraedd ei thargedau erbyn 2050, yn enwedig o ystyried y perfformiad hyd yma.

Nodwyd y gall sicrhau bod cynigion yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg, hyrwyddo ymgysylltu â chymunedau Cymraeg eu hiaith yn ystod y broses ymgynghori, a gall nodi effeithiau andwyol posibl yn gynnar, gan ganiatáu datblygu dulliau lliniaru effeithiol.

Yn ogystal â'r asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, nodwyd y bydd angen tystiolaeth o gamau lliniaru i ddangos sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg, gan sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu'n ddigonol ac na ddylent gael effaith andwyol pan welir bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae angen i awdurdodau lleol gynllunio eu trefniadaeth ysgol i ddiwallu anghenion y dysgwyr yn eu hardal, boed hyn yn gyfrwng Cymraeg, dwyieithog neu gyfrwng Saesneg.

Cwestiwn 15

Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r Cod drafft er mwyn sicrhau:

- ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; ac
- ei fod yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Sylwadau ategol

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod y Cod drafft yn gynhwysfawr ac nad oedd angen unrhyw newidiadau pellach.

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr hefyd a awgrymodd fod angen eglurhad pellach ar ofynion Llywodraeth Cymru o'r Cod mewn perthynas â'r Gymraeg. Awgrymwyd hefyd fod yr effeithiau ar y Gymraeg yn dibynnu ar fath y cynnig.

Awgrymwyd hefyd fod y Bil Iaith Gymraeg yn dod yn gyfraith ac y dylid ystyried Continwwm yr Iaith Gymraeg o'r Saesneg i'r Gymraeg yn yr adran hon.

Cwestiwn 16

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw broblemau cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Ysgolion gwledig bach
Gwnaeth sawl ymatebydd sylwadau ar yr wybodaeth a gynhwysir yn y Cod mewn perthynas ag ysgolion bach a gwledig. Awgrymwyd fod Llywodraeth Cymru yn ystyried:

- Diddymu'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion bach/gwledig o'r Cod yn gyfan gwbl.
- Gwneud newidiadau i eiriad y Cod er mwyn darparu sail gyfreithiol gadarn ar ei gyfer.
- Darparu canllawiau manwl pellach i sicrhau cydymffurfiaeth lawn mewn cynigion o'r fath, gan ddarparu templedi safonol ar gyfer hyn.

Awgrymodd un ymatebydd nad yw'r Cod yn esbonio'n glir sut i gwmpasu holl ffactorau dogfen ymgynghori'r cynigydd a gofynion y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig.

Roedd ar un ymatebydd eisiau eglurder ynghylch a oes rhaid i gynigwyr gynnwys pob ysgol arall o fewn pellter rhesymol yn y ddogfen ymgynghori wrth gynnig cau ysgol wledig a throsglwyddo'r disgyblion i'r ysgol agosaf yn yr un categori.

Gofynnodd un ymatebydd a oedd unrhyw fwriad i adolygu'r weithdrefn symlach sydd ar gael ar gyfer cau ysgol fach - a ddiffinnir at ddibenion trefniadaeth ysgol fel ysgol gyda llai na 10 o ddysgwyr cofrestredig - gyda'r bwriad o ddiwygio'r trothwy hwn.

Cludiant i'r ysgol
Cododd nifer o ymatebwyr faterion ynglŷn â chludiant i'r ysgol.

Cwestiynodd un ymatebydd y dewis i ddileu'r paragraff canlynol yn y Cod drafft sydd yn y Cod presennol: "Yn achos cynlluniau i gau ysgolion, dylai awdurdodau lleol ystyried: natur siwrneiau i ddarpariaeth amgen ac amseroedd teithio i ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion AAA; yn benodol, p'un a fydd gan ddisgyblion cynradd siwrneiau un ffordd o fwy na 45 munud, neu gan ddisgyblion uwchradd siwrneiau un ffordd o fwy nag awr."

Dywedodd ymatebydd y dylai fod gofyniad am asesiad o'r effaith economaidd-gymdeithasol o wneud i fyfyrwyr deithio ymhellach o'u cartref, yn unol â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Awgrymodd un ymatebydd y byddai awdurdodau lleol yn cael trafferth cynnal asesiadau o'r effaith ar gludiant cyn iddynt fwrw ymlaen â'r cynigion, gan nodi effeithiau negyddol ar gyllidebau refeniw. Awgrymodd un arall y bydd gofynion ychwanegol yn yr adran gludiant yn arwain at lwyth gwaith ychwanegol wrth ystyried cynnig a bydd angen ymgynghori yn gynharach/yn fwy trylwyr gyda swyddogion priffyrdd/cludiant.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Awgrymodd rhai ymatebwyr fod yn rhaid i'r Cod gynnwys darpariaethau ynghylch arfer swyddogaethau Medr gan Weinidogion Cymru; awdurdodau lleol; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; a phersonau perthnasol eraill na fyddai'n cynnwys y Comisiwn.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid diwygio'r Cod i sicrhau bod y Comisiwn yn cael caniatâd gan Weinidogion Cymru cyn gwneud unrhyw gynigion mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir.

Mynegodd rhai bryder y bydd Gweinidogion Cymru yn colli eu pwerau i gychwyn newidiadau o dan y Cod mewn perthynas â chweched dosbarth ysgolion wrth i'r Comisiwn bellach ennill y pwerau hyn.

Rôl Estyn
Tynnodd rhai sylw at y ffaith bod angen diweddaru'r Cod i adlewyrchu fframwaith arolygu newydd Estyn.

Unedau Cyfeirio Disgyblion
Roedd un ymatebydd yn pryderu nad yw'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ymgynghori wrth wneud newidiadau sy'n ymwneud ag unedau cyfeirio disgyblion (PRUs), gan ychwanegu bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn ofalus yr achos dros ofyn am ymgynghori pan fydd newidiadau'n ymwneud â PRUs i helpu i amddiffyn a chefnogi'r disgyblion hynny sy'n agored i niwed.

Hygyrchedd
Awgrymodd un ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol cael canllawiau cenedlaethol ar ofynion hygyrchedd wrth gyhoeddi dogfennaeth. Mae angen mwy o gefnogaeth/arweiniad mewn perthynas ag asesiadau effaith. Gofynnodd un ymatebydd am enghraifft o hysbysiad statudol ar gyfer ysgolion arbennig gael ei chynnwys yn yr atodiadau.

Cyhoeddi cynigion
Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru gynghori bod ymgynghoriadau sy'n cynnwys cynigion lluosog ar gyfer sawl darparwr mewn un ddogfen yn cael eu cadw i'r lleiafswm, a'u cyhoeddi pan fod angen yn unig ac os oes rhesymeg glir dros wneud hynny. Er enghraifft, gallai canllawiau nodi y dylai cynigwyr wahanu pob cynnig i'w adran ei hun ynghyd ag esboniadau manwl, effeithiau penodol, a rhesymeg unigol. Dylai fod yn glir y gall

rhanddeiliaid roi adborth ar gynigion unigol yn hytrach na gofyn iddynt ymateb i'r ymgynghoriad yn ei gyfanrwydd.

Gofynnodd un ymatebydd a yw amserlenni yn caniatáu amser ar gyfer 'galw penderfyniadau i mewn', gan fod angen 10 diwrnod ychwanegol ar eu cyfer.

Sylwadau cyffredinol

Awgrymodd un ymatebydd fod angen i Atodiad A fod yn gliriach.

Dylid tynnu rhai ysgolion oddi ar y rhestr o ysgolion gwledig gan eu bod wedi cau ers cyhoeddi'r argraffiad diwethaf o'r Cod.

Gofynnodd un ymatebydd a yw'n bosibl ailenwi'r "Adroddiad Gwrthwynebu" gan fod y term gwrthwynebu yn cael ei ystyried yn negyddol.

Mae'r Cod yn cyfeirio at 'ddarpariaeth amgen' mewn gwahanol gyd-destunau. Nid yw bob amser yn glir beth yw ystyr 'darpariaeth amgen'.

Gofynnodd un ymatebydd a ellir defnyddio dewis arall yn lle dalgylchoedd gan nad yw pob awdurdod lleol yn diffinio/gweithredu dalgylchoedd.

Ceisiwyd eglurder ar y lefelau ymgysylltu sydd gan gyrff llywodraethu mewn perthynas ag ymgynghori a llais y disgyblion.

Gofynnodd un ymatebydd a ddylai'r Cod gynghori bod ymgyngoreion yn cael eu hysbysu o gyfeiriadau at unrhyw ffynonellau data a dyddiadau ar gyfer adroddiadau cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, os a phan y cânt eu defnyddio.

Gofynnodd un ymatebydd am gyfeiriadau cliriach at y rhannau penodol o'r ddeddfwriaeth berthnasol yn y Cod drwyddo draw.

Awgrymwyd y dylai Adran 9 gynnwys dolenni i'r Codau Anghenion Dysgu Ychwanegol a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac y dylid rhoi mwy o bwyslais yn y Cod cyfan i faterion cydraddoldeb/asesiadau effaith ar gydraddoldeb, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Cafwyd cais am ddarparu dogfennau templed ar gyfer Asesiadau Effaith ar y Gymraeg ac Asesiadau Effaith Cymunedol, ac i ddiffinio "cymuned" ar gyfer yr asesiad effaith gymunedol, gan gynnwys pellter.

Gofynnodd un ymatebydd a ddylai'r Cod gynnwys canllawiau ar ffederaleiddio / wythnosau anghymesur.

Dywedodd un ymatebydd nad yw'r wybodaeth a ddarperir yn y Cod am gymeradwyaeth gan yr awdurdod lleol yn glir.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Ysgolion gwledig bach: er ein bod yn deall y pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol a'r anawsterau y gall cynnal ysgolion gwledig bach iawn eu cyflwyno, nid oes unrhyw fwriad i ddiwygio neu ddileu'r rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Mae

pwysigrwydd ymgynghori ac ystyriaeth lawn o'r dewisiadau amgen i gau yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Bydd y rhestr bresennol o ysgolion gwledig a ddarperir at y diben hwn yn destun adolygiad maes o law ac, os bydd angen unrhyw newidiadau, bydd ymgynghoriad llawn ar hyn yn cael ei gynnal bryd hynny.

Cludiant ysgol: mae'r Cod bellach yn cyfeirio at y gofynion o fewn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn hytrach na dyblygu'r wybodaeth hon o fewn y Cod. Mae hyn yn cadw'r gofynion yn gyson â'r ddeddfwriaeth gyfredol.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil: Mae rôl Medr mewn trefniadaeth chweched dosbarth ysgolion wedi'i bennu yn Neddf TER. Lle gwnaeth ymatebwyr sylwadau ar eglurder rôl Medr fel y'i nodir yn y Cod, rydym wedi mynd i'r afael â hyndrwy wneud mân welliannau. Nid yw'n bosibl newid y gofynion deddfwriaethol yn hyn o beth.

Rôl Estyn: mae'r Cod wedi'i ddiwygio i adlewyrchu fframwaith arolygu newydd Estyn.

Unedau atgyfeirio disgyblion: nid oes unrhyw fwriad i ddod â PRUs o fewn cwmpas y Cod, fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei ystyried yn y dyfodol.

Hygyrchedd: mae rhagor o wybodaeth am safonau hygyrchedd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: Safonau hygyrchedd ar gyfer LLYW.CYMRU | LLYW.CYMRU.

Cyhoeddi cynigion: ychwanegwyd cyngor ar gyhoeddi cynigion lluosog at y Cod . Nid yw amser 'galw penderfyniad i mewn' wedi'i gynnwys yn benodol o fewn amserlenni'r Cod a Deddf 2013, ond ystyrir eu bod yn ymarferol ar gyfer gwneud penderfyniadau gan awdurdodau lleol.

Sylwadau cyffredinol:

- Mae'r rhestr ysgolion gwledig wedi'i diweddaru i adlewyrchu unrhyw ysgolion sydd wedi cau ers y rhifyn diwethaf.
- Mae "gwrthwynebu" yn derm a ddefnyddir yn Neddf 2013 ac felly ni ellir ei ddiwygio drwy'r Cod.
- Mae troednodyn wedi'i ychwanegu i egluro mai ystyr darpariaeth amgen yw'r ysgolion amgen arfaethedig neu sefydliadau addysg eraill y gall dysgwyr eu mynychu.
- Darperir cyfeiriadau yn y Cod at Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a gyflwynodd y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus.
- Ni fydd templedi ar gyfer asesiadau effaith yn cael eu darparu; yn hytrach, rhestrir gofynion sylfaenol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod asesiadau'n cael eu hystyried yn ofalus ar gyfer cyd-destun lleol pob cynnig.
- Nid oes unrhyw fwriad i ddarparu canllawiau na gwybodaeth am ffederaleiddio nac amserlenni anghymesur yn y Cod.

Rydym yn ddiolchgar i'r holl ymatebwyr am gymryd yr amser i ystyried a gwneud sylwadau ar y Cod drafft ac ateb ein cwestiynau. Mae rhai mân eglurhadau wedi'u gwneud nad ydynt yn newid ystyr unrhyw ran o'r ddeddfwriaeth na gofynion y Cod. Bydd trydydd argraffiad y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cael ei osod a'i gyhoeddi maes o law.

Atodiad A - Rhestr o'r ymatebwyr

Cafwyd ymatebion gan yr unigolion a'r sefydliadau canlynol nad oeddent am aros yn ddienw:

Ffred Ffransis - Cymdeithas yr Iaith

Dylan Bryn Roberts - Dyfodol i'r Iaith

Karen Evans, Pennaeth Addysg, Cyngor Sir Ddinbych

Owain Lloyd - Cyngor Sir Gaerfyrddin

Owen Evans, Estyn

Cynog Gwynedd (Adran Addysg) Adran addysg Gwynedd

Michelle Thomas - Cyngor Abertawe

Stuart Williams - NEU Cymru

Iona A. Davies - UCAC / NUT

Joanne Watts, Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Addysg a Newid Busnes - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent